OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 837 (Cy. 185)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cilfan yng Nglandyfi, Ceredigion) (Cyfyngu ar Aros) 2022

Gwnaed	*19 Gorffennaf 2022*
Yn dod i rym	*22 Gorffennaf 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cilfan yng Nglandyfi, Ceredigion) (Cyfyngu ar Aros) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Gorffennaf 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cilfan" ("*lay-by*") yw unrhyw ran o'r gefnffordd a fwriedir fel man aros i gerbydau ar un

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

o ymylon y gefnffordd a ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o'r math a welir yn niagram 1010 o Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2016(**1**);

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Cyfyngu ar aros

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gilfan ar ochr ogledd-orllewinol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,193 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1139 sy'n arwain at Gwm Llyfnant hyd at bwynt 1,257 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno yng Nglandyfi, Ceredigion am gyfnod sy'n fwy na 4 awr, gydag 8 awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y darn o'r gilfan a bennir.

Esemptiadau

4. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gilfan a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(b) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gilfan; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darn o'r gilfan, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**2**);

(**1**) O.S. 2016/362.

(**2**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(c) cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol—

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Gorffennaf 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru